CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun 12fed Mai, 2025**, yng Nghanolfan Bryncroes o 7.50 p.m. hyd 8.30 p.m.

Presennol: Y Cynghorydd Gwenan Griffiths (Cadeiryddes)
Y Cynghorydd Elin Hughes (Is-Gadeiryddes)
Y Cynghorwyr Carys H. Evans, Dylan Parry Jones, Glyn Roberts, Efan Thomas, Carys E. Williams, Glenys Williams, Iwan J. Williams, Siôn Williams

Ymddiheuriad: Y Cynghorydd Gareth Williams (Cynghorydd Pen Draw Llŷn ar Gyngor Gwynedd)

9. CYHOEDDIADAU'R GADEIRYDDES

Croesawodd y Cadeiryddes yr aelodau i'r cyfarfod a diolchodd i'r Cynghorydd Michael Strain am ei waith dros y flwyddyn ddiwethaf.

10. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad.

11. CADARNHAU COFNODION Y CYNGOR A GYNHALIWYD 12fed MAI, 2025

Cyflwynwyd, cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd 12fed Mai, 2025.

(Cynigiwyd gan Y Cynghorydd Siôn Williams ac eiliwyd gan Y Cynghorydd Dylan Parry Jones gyda phawb yn cytuno).

Materion yn codi

Eitem 111 – Lloches bws ym Motwnnog

Deallwyd oddiwrth Y Cynghorydd Gareth Williams fod trafodaeth yn dal i fodoli gyda'r Feddygfa.

Penderfynwyd gohirio am y tro.

Eitem 112 – Memorandwm o Ddealltwriaeth

Derbyniwyd e-bost pellach gan Sian Parri dyddiedig 28ain Ebrill, 2025

"Mi wnaf anfon manylion am sut ac at bwy i anfon cais Botwnnog i wneud Polisi Gosod Lleol ar bob ty cymdeithasol, os y medri di anfon y cofnod o'r eitem ataf pan gei di gyfle.

Ymhellach i fy nghais am gael gweld y polisi gosod a sefydlwyd yng Nghonl Meinciau pan godwyd y tai a'r Ganolfan yno. Fel y gwyddoch daeth yr ymateb yn y pen draw gan Cynefin nad oedd yna 'Bolisi Gosod Lleol'. Ond wrth gychwyn paratoi drafft o Bolisi Gosod Lleol ac edrych ar wahanol rai ar y we gwelais y wybodaeth yma gan un o Gynghorau Sir Lloegr Lloegr https://www.eastherts.gov.uk/housing/housing-policies-strategies/local-lettings-policies

Felly edrych ar y cais gwreiddiol ar wefan Gwynedd a gweld mae drwy Gytundeb 106 yr oedd y polisi wedi ei sefydlu. Mae'r ddau yn bethau gwahanol ac o dan gyfreithiau gwahanol ond yn medru cyd-redeg ac yn bodoli i bwrpas tebyg sef rhoi blaenoriaeth i bobl o ddisgrifiad penodol mewn cymunedau penodol. Mae 106 yn benodol er mwyn medru caniatau ceisiadau cynllunio na fyddai yn cael caniatad heb fod yna gytundeb yn ei le. Gweld hefyd y cais i'w ddileu a gwrthwynebiad Cyngor Cymuned Botwnnog i Gyngor Gwynedd wneud hynny.

Anfon atoch er gwybodaeth eich gohebiaeth a chopi o'r cytundeb ei hun. Mae'n amlwg fod hwn wedi ei godi er mwyn gosod i bobl o'r tu allan i'r 3 ward.
Mi ydw i yn cael help i baratoi drafft o Bolisi Gosod Lleol ac mi wnaf anfon atoch am eich sylwadau fel unigolion ac fel Cyngor Cymuned arno."
Adroddodd Y Cynghorydd Siôn Williams ar y cyfarfod fu yng Nghapel Penygraig nos Fawrth, 22ain Ebrill, 2025, i cydrhwng Cynghorau Cymuned Botwnnog, Aberdaron, Tudweiliog a Chyfeillion Llŷn i drafod anghenion tai lleol a'r angen i ddiogelu'r iaith Gymraeg wrth osod tai cymdeithasol.
Penderfynwyd derbyn y wybodaeth.

12. **CEISIADAU CYNLLUNIO**
Cyflwynwyd cais C25/0321/32/LL – cais i godi to dros iard amaethyddol bresennol – Tre Wen, Botwnnog.
Penderfynwyd ei gefnogi.
Yn y cyswllt hwn, tynnodd Y Cynghorydd Glyn Roberts sylw ei fod o'r farn fod ceisiadau cynllunio yn cael eu penderfynu arnynt heb i'r Cyngor gael cyfle i roi eu barn.
Penderfynwyd ymholi gyda'r Cynghorydd Gareth Williams (Cyngor Gwynedd) pa geisiadau cynllunio sydd heb ddod drwy'r Cyngor Cymuned a'r rheswm am hynny.

13. **MATERION FFYRDD A LLWYBRAU**
Penderfynwyd
a) anfon at Beiriannydd Rhanbarthol Cyngor Gwynedd yn tynnu ei sylw at gyflwr gwael y ffordd ar ôl pasio Talceb Eiddew am Penrhyn Uchaf, Bryn Mawr; ac hefyd y ffordd ym mhen lôn Pant, Bryncroes.
b) gofyn i J.A. Pozzi farbio o gwmpas y gamfa ger Neigwl Ganol, Botwnnog.
c) Derbyn er gwybodaeth - I adrodd fod y Cynghorydd Gareth Williams wedi derbyn gwybodaeth 'Gan Bwyll' y byddai arolwg o'r gor yrru yn Sarn Mellteyrn yn cael ei gynnal yn ystod y mis hwn. (dyddiad yr e-bost 1af Mai, 2025).

14. **AWDURDOD I DALU**
Nid oedd unrhyw daliad yn ddyledus.

15. **CRONFA DIWYLLESIANT GWYNEDD**
Cyflwynwyd gwybodaeth gan Alys Lloyd Jones, Swyddog Cefnogi Cymunedau, Adran Llŷn a Phwllheli, yn nodi fod y gronfa isod ar agor. Am ragor o wybodaeth dyma'r linc i'r wefan:
Cymraeg: www.gwynedd.llyw.cymru/cronfadiwyllesiant
Saesneg: www.gwynedd.llyw.cymru/diwyllesiantfund
Penderfynwyd nodi'r wybodaeth.

16. **BLODAU I'R BARELI**
Penderfynwyd archebu blodau a 'compost' i'r chwech barel o Tyddyn Sachau.

17. **ADNEWYDDU MELIN DARON, ABERDARON**
Gofynnodd Y Cynghorydd Glyn Roberts a fyddai'r Cyngor yn fodlon ysgrifennu llythyr o gefnogaeth i adnewyddu Melin Daron, Aberdaron – roedd hyn ei angen er gwneud ceisiadau am gyfraniad/grantiau.
Penderfynwyd anfon llythyr o gefnogaeth.

18. **PARTI PENBLWYDD AR Y COMIN**

Adroddodd y Clarc iddi, mewn ymgynghoriad a'r Cadeirydd ganiatau i riant gynnal parti penblwydd ar y Comin ym Mryncroes ddiwedd wythnos y Cyngor ar y dealltwriaeth nad oedd y Cyngor yn gyfrifol am unrhyw ddifrod/damwain fyddai'n digwydd.

Nodwyd yr adroddiad.

19. **CASGLU YSBWRIEL**

Adroddodd Y Cynghorydd Elin Hughes ei bod yn bwriadu cynnal noson o gasglu ysbwriel yn ardal Sarn a Botwnnog, Nos Lun, 3ydd Mehefin, 2025 gan ymgynnull yn Neuadd Goffa Sarn am 6.00 y.h. Gofynnodd i'r aelodau ymuno os yn bosibl.